# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)30-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 17 Tachwedd 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora’r 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau’r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau’r Cynulliad

Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marc Wyn Jones, Gwasanaeth y Siambr

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)29-08 (cofnodion drafft) - dydd Mawrth 10 Tachwedd 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i’r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu’n barod i’w cyhoeddi.

**Camau i’w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)30-09(p1)**

3.1 Dywedodd y Llywydd fod dadl ar y Gyllideb ddrafft wedi’i threfnu ar gyfer dydd Mawrth. Dywedodd na fyddai modd gwneud cynnig yn y Cyfarfod Llawn mewn perthynas â’r Gyllideb ddrafft o dan Reol Sefydlog 27.2 gan nad oedd y Pwyllgor Cyllid wedi gallu cyflwyno’i adroddiad o fewn 4 wythnos i osod y Gyllideb ddrafft. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai cynnig i atal Rheol Sefydlog 27.2 yn cael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth. Pe cytunid ar hwnnw, byddai modd gwneud cynnig mewn perthynas â’r Gyllideb ddrafft a chynnal dadl arni.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes na fyddai’r cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth a dydd Mercher yn cael ei gynnal cyn 5pm.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes 17 ac 18 Tachwedd 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)30-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)30-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu’r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2009 -**

Dadl ar gynnig Darren Millar ar gyfer Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol - Cynllun Parcio Ffafraethol (60 munud)

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar ei ymchwiliad i Graffu ar Is-ddeddfwriaeth a Phwerau Dirprwyedig (60 munud)

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru (60 munud)

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**